**LC136**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Diwygio) (Cymru) 2000

**Y Cefndir**

Mae Atodlen 1 i Reoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) 1991 yn rhestru tanwyddau perchnogol y ceir eu llosgi mewn ardaloedd rheoli mwg.

Mae'r Rheoliadau presennol yn diwygio'r rhestr honno. Mae'r diwygiadau'n ychwanegu dau danwydd ac yn gwneud newidiadau o ganlyniad i newidiadau wrth weithgynhyrchu tanwyddau eraill a enwir.

Gwnaed yr un diwygiadau ar gyfer Lloegr yn OS Rhif 1077. Gwnaed hyn ar 17 Ebrill 2000 a daeth i rym ar 9 Mai 2000.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Rhaglith**

Credir y byddai'n well pe bai'r wybodaeth a roddir ar hyn o bryd yn nhroednodyn (b) (Rheoliad 1(2)) yn cael ei throsglwyddo i droednodyn (a).

Yn ogystal, nid oes acen grom ar y gair “pwer” yn y testun Cymraeg.

**Mick Bates AM**

**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

21 Tachwedd 2000